Cymwysterau cyfredol a menter Llwybrau Dysgu 14-19

Estyn
Rhagoriaeth i bawb....Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i'r Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2006: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	**Tudalen**

Cyflwyniad **1**

Prif ganfyddiadau **2**

Argymhellion **4**

Beth yw menter Llwybrau Dysgu 14-19? **6**

Sut mae Llwybrau Dysgu yn datblygu? 7

Pa gymwysterau y mae darparwyr yn eu defnyddio ar hyn o bryd? **9**

Pa gymwysterau y mae ysgolion yn eu defnyddio? 9
Pa gymwysterau y mae colegau yn eu defnyddio? 10
Pa gymwysterau y mae darparwyr dysgu yn y gwaith yn eu defnyddio? 11
Beth am gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg? 12

Sut mae darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno cymwysterau? **13**

Sut mae cyrff dyfarnu yn datblygu cymwysterau? **14**

Sut mae ACCAC yn datblygu cymwysterau? 14

Pa gyfraniad y mae Bagloriaeth Cymru yn ei wneud at Lwybrau Dysgu? **16**

Beth yw effaith dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith ar ddysgwyr? **18**

Beth yw rôl ac effaith Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru? **19**

Casgliad **21**

Atodiad 1: Y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol

Atodiad 2: Cynghorau Sgiliau Sector

Atodiad 3: Cymwysterau a ddefnyddir yn gyffredin

TGAU
Safon uwch
Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol – CGCCau
TGAU Galwedigaethol
Tystysgrifau Addysg Galwedigaethol – Safon uwch TAA
Dyfarniadau Cenedlaethol BTEC – Lefel 3 (Edexcel)
Dyfarniadau Cyntaf BTEC – Lefel 2 (Edexcel)
Dyfarniadau Rhagarweiniol BTEC (Edexcel)

Diploma mewn Cymwysiadau Digidol – DiDA (Edexcel)
Cymwysterau Cenedlaethol RhCA
Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol – Lefelau 1-5
Cymwysterau lefel mynediad
Datblygu Cynllun Dyfarnu a Dyfarniadau Rhwydwaith Achredu (ASDAN)
Y Rhwydwaith Coleg Agored Cenedlaethol (RhCAC)
Cyngor Dyfarniadau mewn Gofal ac Addysg Plant (CACHE)
Dyfarniadau Pacific Institute
Cynllun Gwobr Dug Caeredin
Rhaglen Gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth y Tywysog

Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r ystod lawn o gymwysterau a dyfarniadau sydd ar gael i ddysgwyr yn yr ystod oedran 14-19. Mae'n ystyried sut mae darparwyr yn defnyddio cymwysterau a dyfarniadau i gefnogi menter Llwybrau Dysgu 14-19. Mae hefyd yn ystyried y ffyrdd y mae partneriaethau yn datblygu ardaloedd difater.

2 Mae'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn nodi pwysigrwydd y fenter yn ei chyflwyniad i'r Arweiniad Llwybrau Dysgu lle mae'n datgan bod 'Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod pa mor bwysig yw'r sector 14-19 i'r prif flaenoriaethau ar gyfer iechyd gwell, swyddi gwell, medrau gwell a chymunedau cryfach a mwy diogel.'

3 Nod menter Llwybrau Dysgu yw gwneud yn siŵr bod 95 y cant o bobl ifanc erbyn iddynt fod yn 25 oed yn barod ar gyfer cyflogaeth medr uchel neu addysg uwch erbyn 2015'.

Mae Llwybrau Dysgu yn cynnwys y chwe elfen allweddol canlynol:

- llwybrau dysgu unigol i fodloni anghenion pob dysgwr;
- dewis ehangach a hyblygrwydd o ran rhaglenni a ffyrdd o ddysgu;
- craidd dysgu lle bynnag y mae dysgwyr 14-19 oed;
- cymorth hyfforddwr dysgu;
- mynediad at gymorth personol; a
- chyngor ac arweiniad gyrfaoedd diduedd.

4 Mae'r papur hwn yn delio'n bennaf â'r elfennau cyntaf a'r ail elfennau.

5 Ymwelodd arolygwyr ag ystod o sefydliadau wrth ymgymryd â'r adroddiad hwn. Roedd y sefydliadau'n cynnwys ysgolion, colegau, darparwyr dysgu yn y gwaith, ACCAC, ELWa, AALlau a chyrff dyfarnu. Ymgynghorodd arolygwyr ag adroddiadau Estyn ar ddarparwyr a arolygwyd yn ystod 2004-2005 hefyd.

Prif ganfyddiadau

6 Mae'r trefniadau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm 14-19 yn amrywio'n fawr rhwng gwahanol ddarparwyr mewn partneriaethau ardal leol. Oherwydd cystadleuaeth rhwng darparwyr, mae yna'n aml gryn dipyn o densiwn rhwng aelodau partneriaethau, yn enwedig ar gyfer recriwtio dysgwyr ôl-16. Mae hyn yn gweithio yn erbyn yr angen i gydweithio i gynnig dewis eang mewn dewislenni.

7 Mae cymwysterau cyfredol yn bodloni anghenion dysgwyr cyn-16 ac ôl-16 sy'n dewis astudio pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar lefel TGAU a Safon Uwch, a phynciau academaidd eraill nad ydynt yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, fel seicoleg, y gyfraith a chymdeithaseg, yn llwyddiannus.

8 Mae llawer o ddarparwyr yn dechrau cynnig mwy o lwybrau galwedigaethol ar gyfer dysgwyr 14-19 naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn partneriaeth â darparwyr eraill. Fodd bynnag, nid oes digon o gymwysterau galwedigaethol ar gael ar lefelau 1 a 2 sydd wedi'u cydweddu'n dda ag anghenion dysgwyr cyfnod allweddol 4.

9 Mae gan Fagloriaeth Cymru lawer yn gyffredin â menter Llwybrau Dysgu, yn enwedig mewn perthynas â'r craidd dysgu. Yng nghyfnod peilot Bagloriaeth Cymru, mae yna enghreifftiau o arfer dda o ran datblygu ymagweddau tuag at y cymhwyster. Nid oes digon o'r Rhwydweithiau 14-19 yn ymwybodol bod i'r gwersi a ddysgwyd o ganolfannau peilot Bagloriaeth Cymru oblygiadau uniongyrchol i'r Llwybrau Dysgu.

10 Mae ysgolion a cholegau yn cyflwyno mwy o gyrsiau galwedigaethol ar gyfer dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4. Mae rhai ysgolion yn cynnig CGCau ar lefel 1 ar y cyd â cholegau a darparwyr hyfforddiant er mwyn darparu ar gyfer ystod ehangach o anghenion dysgwyr.

11 Mae ysgolion unigol yn gweithio'n galed i ymestyn ystod y cyfleoedd dysgu yng nghyfnod allweddol 4 i gefnogi menter Llwybrau Dysgu. Fodd bynnag, ychydig iawn o ysgolion sy'n ddigon mawr ar eu pen eu hunain i gynnig ystod dda o ddewisiadau ar wahanol lefelau. Yn aml, nid yw'r cyrsiau a ddarperir wedi'u cydweddu digon â'r farchnad lafur leol.

12 Mae yna ystod newydd a datblygol o gymwysterau sy'n gysylltiedig â galwedigaethau. Mae'r cymwysterau hyn yn aml yn ddewis gwell ar gyfer dysgwyr cyfnod allweddol 4 na CGCau, gan eu bod yn datblygu medrau cyflogadwyedd cyffredinol dysgwyr.

13 Darperir ystod dda o gymwysterau cyffredinol yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid oes digon o gymwysterau galwedigaethol ar gael yn Gymraeg.

14 Mae llawer o ysgolion a cholegau yn defnyddio dyfarniadau'r Rhwydwaith Coleg Agored (RhCA). Maent yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i ddyfarnu credydau am brofiad gwaith neu ar gyfer maes medr penodol, fel gwaith coed sylfaenol.

15 Mae llawer o ysgolion a cholegau yn dal i ddefnyddio cymhwyster canolradd y Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol (CGCC). Disgwylir y bydd yn

cael ei ddiddymu'n raddol, ac mae cyrff dyfarnu yn datblygu cymwysterau amgen. Fodd bynnag, hyd yn hyn, nid oes yr un o'r dewisiadau eraill hyn yn bodloni'n llawn yr anghenion sy'n cael eu bodloni gan y CGCC ar hyn o bryd ar lefelau canolradd a sylfaen.

16 Mae llawer o golegau wedi dewis defnyddio cymwysterau diploma cenedlaethol BTEC yn hytrach na Thystysgrifau Galwedigaethol mewn Addysg (TAA safon uwch). Mae hyn oherwydd bod y diploma cenedlaethol yn fwy galwedigaethol ac yn baratoad gwell ar gyfer cael mynediad uniongyrchol i gyflogaeth.

17 Bu rhai rhwydweithiau'n weithredol iawn yn datblygu partneriaethau ymhlith ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant preifat. Fodd bynnag, nid oes gan yr un Rhwydwaith 14-19 y ddewislen ar gael ar gyfer ei ddysgwyr.

Argymhellion

Dylai Rhwydweithiau Dysgu 14-19:

A1 wneud yn siwr bod yna ddewislen addas o ddewisiadau ar gael i ddysgwyr yn eu hardaloedd lleol;

A2 gwneud yn siwr bod dysgwyr mewn ysgolion yn derbyn gwybodaeth am y dewisiadau sydd ar gael mewn darparwyr eraill fel eu bod yn gwybod am yr ystod o ddewisiadau sydd ar gael iddynt;

A3 gwneud yn siwr bod y ddewislen yn cynnwys cymwysterau (neu gredydau) cyffredinol a galwedigaethol cymhwysol priodol o lefel mynediad i lefel 3, ac yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4;

A4 gwneud yn siwr nad yw darparwyr yn dyblygu darpariaeth sydd eisoes ar gael yn lleol yn ddiangen;

A5 cynnwys darpariaeth dysgu yn y gwaith yn fwy wrth lunio'u cynlluniau datblygu; a

A6 rhoi arweiniad i ysgolion a darparwyr eraill ar y farchnad lafur leol fel y gall cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 helpu i baratoi dysgwyr ar gyfer swyddi sydd ar gael yn lleol.

Dylai cyrff dyfarnu ac ACCAC:

A7 ddatblygu mwy o gymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg, yn enwedig yn y cyrsiau mwyaf poblogaidd;

A8 cynllunio cwrs mwy priodol yn lle CGCC; a

A9 gwneud yn siwr bod unrhyw beth sy'n dod yn lle'r CGCC yn gwrs galwedigaethol cyffredinol y gellid ei ddilyn amser llawn yn y sector ôl-16 mewn blwyddyn neu'n rhan-amser dros gyfnod o ddwy flynedd yng nghyfnod allweddol 4 lle gellid ei gyfuno â'r craidd dysgu a dewisiadau TGAU eraill.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A10 wneud yn siwr bod mecanwaith ar waith i ofyn i'r Rhwydwaith Dysgu 14-19 ddarparu dewislen addas o ddewisiadau;

A11 adolygu'r defnydd o ddangosyddion perfformiad 16 a 18 i ganolbwyntio mwy ar sgorau pwyntiau yn hytrach na chymwysterau;

A12 pennu ffordd o adolygu ac arfarnu addasrwydd y cymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr 14-19 yn rheolaidd mewn perthynas ag anghenion economaidd y wlad;

A13 blaenoriaethu datblygu fframwaith credyd yn y cymwysterau mwyaf poblogaidd ar gyfer dysgwyr yn y grŵp oedran 14-19;

A14 cynyddu'r cyflymder y rhoddir cyfradd credyd i gymwysterau galwedigaethol a ddefnyddir yn aml fel y gall dysgwyr ennill credyd am gymwysterau a gwblhawyd yn rhannol;

A15 gwneud yn siwr bod y gwersi a ddysgwyd o ganolfannau peilot Bagloriaeth Cymru yn cefnogi darparwyr wrth ddatblygu Llwybrau Dysgu 14-19; a

A16 nodi a chefnogi datblygiad cymwysterau galwedigaethol sydd fwyaf addas ar gyfer dysgwyr cyfnod allweddol 4 er mwyn eu helpu i symud yn haws i addysg bellach a hyfforddiant yn ogystal ag i gyflogaeth.

Dylai darparwyr:

A17 gynyddu'r defnydd o ystod ehangach o gymwysterau cyffredinol a galwedigaethol ar gyfer dysgwyr 14-19 oed ar draws rhwydwaith dysgu;

A18 codi ymwybyddiaeth am yr ystod o gymwysterau sydd ar gael a'r ffordd orau o gynyddu cyfleoedd dysgu ar gyfer yr ystod gyfan o ddysgwyr;

A19 cydweithio gyda darparwyr cyfagos i gynnig dewis ehangach o lwybrau cymhwyster i ddysgwyr; a

A20 chynyddu'r defnydd o brofiad gwaith dysgwyr fel sylfaen i gasglu tystiolaeth ar gyfer cymwysterau medr allweddol.

Nodyn
O 1 Ebrill 2006 ymlaen, bydd ACCAC yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd yr holl gyfeiriadau at waith ACCAC yn y testun yn gyfrifoldeb yr adrannau olynol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Beth yw menter Llwybrau Dysgu 14-19?

18 Nod menter Llwybrau Dysgu 14-19 yw paratoi 95 y cant o bobl ifanc ar gyfer cyflogaeth medr uchel neu addysg uwch erbyn iddynt fod yn 25 oed. Mae hwn yn darged heriol ac mae'r fenter yn cydnabod bod angen gwneud llawer mwy i ymrwymo'r bobl ifanc hynny nad ydynt ar hyn o bryd yn ymgymryd ag addysg na hyfforddiant ar ôl iddynt fod yn 16 oed. Mae hefyd yn cydnabod bod angen gwneud llawer o'r gwaith hwn cyn iddynt fod yn 16 oed, yn enwedig pan fydd pobl ifanc yn yr ystod oedran 14-16. Yn ystod y blynyddoedd hyn yn arbennig mae pobl ifanc yn meddwl am y dewisiadau sydd ar gael ar eu cyfer ar ôl iddynt fod yn 16 oed.

19 Er mwyn cyflawni'r targed heriol hwn, rhaid i'r fenter oresgyn dwy her bwysig. Yn gyntaf, rhaid i'r fenter wella'r cyfraddau aros ymlaen cymharol wael mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Yn ail, rhaid iddi ymrwymo mwy o bobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant trwy ddarparu mwy o ddewisiadau eraill iddynt y tu hwnt i'r llwybrau TGAU a Safon Uwch traddodiadol.

20 Un o nodau allweddol eraill menter Llwybrau Dysgu yw lleihau nifer y dysgwyr sy'n gadael yr ysgol yn 16 oed heb unrhyw gymwysterau cydnabyddedig. Mae'r dewisiadau ar gyfer y bobl ifanc hyn yn gyfyng iawn pan fyddant yn gadael yr ysgol. Bu ysgolion yn llwyddiannus yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn lleihau cyfran y bobl ifanc sy'n gadael heb unrhyw gymwysterau. Dengys data Llywodraeth Cynulliad Cymru mai'r gyfran nawr yw 2.7% o'r holl bobl ifanc sy'n 16 oed yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r gyfran hon yn wahanol iawn ledled Cymru. Yn 2005, roedd y gyfran yn amrywio o 4.9% yn Sir Ddinbych i 0.4% yng Ngheredigion.

21 Nod menter Llwybrau Dysgu yw darparu mwy o ddewis ac amrywiaeth i ddysgwyr fel y gall pob dysgwr gael llwybr unigol sy'n addas ar gyfer eu hanghenion a'u dyheadau. Cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru arweiniad ar lwybrau dysgu yn 2004. Dyma chwe elfen Llwybrau Dysgu:

- llwybrau dysgu unigol i fodloni anghenion pob dysgwr;
- dewis a hyblygrwydd ehangach o ran rhaglenni a ffyrdd o ddysgu;
- craidd dysgu lle bynnag y mae dysgwyr 14-19 oed;
- cymorth hyfforddwr dysgu;
- mynediad at gymorth personol; a
- chyngor ac arweiniad gyrfaoedd diduedd.

22 Y bwriad yw y bydd dysgwyr yn dewis, gyda chymorth ac arweiniad, dewisiadau sy'n briodol i'w galluoedd a'u dulliau dysgu ac a fydd yn rhoi iddynt y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i'w helpu i gyrraedd eu llawn botensial. Bydd pob dysgwr hefyd yn elwa ar gymorth hyfforddwr dysgu yn ogystal â mynediad at gymorth ac arweiniad personol arall, fel cyngor gyrfaoedd.

23 Mae'n debygol y bydd gan bob llwybr gyfuniad o elfennau ffurfiol, rhai nad ydynt yn ffurfiol ac elfennau anffurfiol. Bydd elfennau ffurfiol yn cynnwys cyfleoedd dysgu wedi'u trefnu sy'n arwain at gymwysterau a/neu gyflawniadau cymeradwy. Rhaglenni wedi'u trefnu yw elfennau nad ydynt yn rhai ffurfiol a allai arwain at gymwysterau neu gredydau achrededig, ond maent yn nodweddiadol y tu allan i'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Profiadau ehangach yw elfennau anffurfiol nad ydynt fel arfer yn arwain at gymwysterau cydnabyddedig.

Sut mae Llwybrau Dysgu yn datblygu?

24 Mae partneriaethau 14-19 lleol yn datblygu cynlluniau ar gyfer gweithredu Llwybrau Dysgu ym mhob ardal yng Nghymru. Grŵp o sefydliadau strategol, darparwyr dysgu a dysgwyr mewn ardal awdurdod lleol yw rhwydwaith. Mae ganddynt gyfrifoldeb am ddatblygu dewislen o ddewisiadau sy'n rhoi ystod ehangach o ddewisiadau a mwy o hyblygrwydd i ddysgwyr yn y modd y maent yn rhoi'r cyrsiau a ddewiswyd ganddynt gyda'i gilydd. Un o swyddogaethau allweddol y rhwydwaith yw datblygu prosbectws ar y cyd o'r dewisiadau sydd ar gael ar gyfer eu dysgwyr 14-19 yn eu hardal.

25 Y nod yw y bydd rhwydweithiau 14-19 yn cynnig ystod o ddewisiadau ar ffurfiau cyffredinol a chymhwysol i ddysgwyr o lefel mynediad i lefelau 3. Mae'r cyrsiau wedi'u nodi mewn pum 'maes', sef:

- mathemateg, gwyddoniaeth a phob agwedd ar dechnoleg;
- busnes a rheoli;
- gwasanaethau i bobl;
- celfyddydau creadigol a diwylliant; a
- dyniaethau ac ieithoedd.

26 Mae Rhwydweithiau 14-19 yn gyfrifol am gyflwyno cynlluniau datblygu blynyddol i Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddangos sut maent yn golygu trefnu a chyflwyno'r ystod o ddewisiadau yn eu hardal.

27 Mae'r cynlluniau datblygu a gyflwynwyd gan Rwydweithiau 14-19 hyd yma'n dangos bod y rhan fwyaf yn gwneud cynnydd araf iawn wrth ddatblygu dewislenni ar gyfer dysgwyr yn eu hardal ar ffurf prosbectws ar y cyd ar draws ardal rhwydwaith.

28 Ychydig iawn o gynlluniau sydd wedi bodloni'r gofyniad i gynnwys dewislenni yn seiliedig ar y pum maes dysgu. Mae rhai Rhwydweithiau 14-19 yn gwneud cynnydd da yn darganfod am yr holl ddarpariaeth 14-19 yn eu hardal ac maent yn rhannu'r wybodaeth â phawb yn y bartneriaeth leol. Fodd bynnag, prin yw'r rhwydweithiau sy'n defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da i gefnogi cynllunio systematig dewisiadau dysgu ar draws y rhwydwaith. Ar y cyfan, prin yw'r rhwydweithiau sy'n gwneud digon o ddefnydd o wybodaeth am y farchnad lafur i'w helpu i gynllunio ystod o ddewisiadau galwedigaethol ar gyfer eu dysgwyr.

29 Mae rhai AALlau a cholegau yn defnyddio grant Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Fuddsoddi Gyffredin ELWa yn effeithiol ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi

datblygiad menter Llwybrau Dysgu trwy annog cydweithio rhwng ysgolion a cholegau.

30 Mae yna 17 ysgol a 14 coleg ledled Cymru sy'n gweithredu fel canolfannau peilot ar gyfer cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Yn gyffredinol, mae'r darparwyr hyn yn gwneud cynnydd da yn gweithredu rhai o'r elfennau sy'n gyffredin i Lwybrau Dysgu ar gyfer dysgwyr ôl-16. Fodd bynnag, ni chaiff y gwersi a ddysgwyd yn sgil datblygu Bagloriaeth Cymru eu rhannu ddigon ar draws Rhwydweithiau 14-19.

Pa gymwysterau y mae darparwyr yn eu defnyddio ar hyn o bryd?

31 Mae ystod eang iawn o gymwysterau wedi'u cymeradwyo ac maent ar gael i ddarparwyr eu defnyddio gyda dysgwyr cyn-16 ac ôl-16. Mae yna dros 8,000 o gymwysterau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (FfCC) hyd at lefel 8. Mae Atodiad 3 yn rhoi enghreifftiau o'r math o gymwysterau a'r dyfarniadau y mae darparwyr yn eu defnyddio sy'n addas ar gyfer dysgwyr cyn-16 ac ôl-16.

Pa gymwysterau y mae ysgolion yn eu defnyddio?

32 Mae ysgolion yn defnyddio cymwysterau sy'n bodloni anghenion dysgwyr sy'n dewis pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar lefel TGAU a Safon Uwch yn bennaf. Maent hefyd yn cynnig cyrsiau mewn rhai pynciau academaidd eraill nad ydynt yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, fel seicoleg, y gyfraith a chymdeithaseg. Yn 2005, y pynciau â'r mwyaf o gofnodion mewn Safon Uwch oedd Bioleg, Mathemateg, Hanes, a llenyddiaeth Saesneg.

33 Ers cyflwyno Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol (CGCCau) ar ddechrau'r 1990au, mae llawer o ysgolion wedi defnyddio ystod gyfyngedig o CGCCau a Thystysgrifau Addysg Galwedigaethol (TAA Safon Uwch). Yn gyffredinol, maent yn cynnig un neu ddau o'r rhain mewn meysydd nad oes angen llawer o adnoddau ychwanegol a drud arnynt. Yr enghreifftiau mwyaf poblogaidd yw cymwysterau galwedigaethol ar lefel uwch mewn busnes, iechyd a gofal cymdeithasol a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a'r un pynciau, yn ogystal â hamdden a thwristiaeth, ar lefel ganolradd. Ychydig iawn o ddefnydd a wnaeth ysgolion o CGCC ar lefel sylfaen yn gyffredinol.

34 Yng nghyfnod allweddol 4, mae ysgolion yn gyffredinol yn penderfynu cynnig maes galwedigaethol penodol lle mae ganddynt y sgiliau staff perthnasol, ac mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau eisoes ar gael yn yr ysgol i fodloni galw'r cwrs. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, ni ddefnyddir gwybodaeth am y farchnad lafur i benderfynu a ddylid cynnig cwrs galwedigaethol penodol ai peidio. Mewn rhai achosion, mae ysgolion yn datblygu cyrsiau galwedigaethol yn yr un meysydd galwedigaethol sy'n dyblygu'r rheiny a gynigir yn y coleg addysg bellach cyfagos gydag adnoddau gwell a hanes da mewn cyflwyno cyrsiau o'r fath.

35 Mae deg ysgol uwchradd yn cynnig cyrsiau diploma cyntaf BTEC ac mae 10 arall yn cynnig cyrsiau sy'n arwain at ddiplomâu a thystysgrifau cenedlaethol. Roedd tri chwarter o'r cymwysterau BTEC a ddyfarnwyd yn ysgolion Cymru yn 2004 mewn chwaraeon. Roedd dyfarniadau BTEC eraill a gyflwynwyd i ddisgyblion mewn ysgolion yng Nghymru mewn iechyd, y blynyddoedd cynnar, y celfyddydau perfformiadol a gwasanaethau cyhoeddus.

36 Roedd pymtheg ysgol uwchradd yng Nghymru yn cynnig CGCau yn 2004 ac roedd bron pob un o'r cofnodion hysbys mewn trin gwallt ar lefel un.

37 Mae ysgolion yn gwneud defnydd cynyddol o TGAU cymhwysol. Cyflwynwyd y cymwysterau hyn yn 2002 ac fe'u haseswyd am y tro cyntaf yn 2004. Roedd tua 3000 o gofnodion yng Nghymru yn 2004. Mae gan y cymwysterau hyn yr un sgôr

pwyntiau â dau TGAU. Mae'r derbyniad uchaf mewn iechyd a gofal cymdeithasol, TGCh cymhwysol a gwyddoniaeth gymhwysol, a gynyddodd yn fawr yn 2005.

38 Cyflwynwyd TGAU cymhwysol ar yr adeg y bwriadwyd cael gwared ar CGCCau ar lefelau canolradd a sylfaen. Fodd bynnag, nid yw'r TGAU Cymhwysol yn gweithio'n briodol fel rhywbeth i gymryd lle lefelau canolradd a sylfaen CGCC, yn enwedig yn y chweched dosbarth. Ar y cyfan, mae darparwyr yn gweld y TGAU Cymhwysol fel cymhwyster cyfnod allweddol 4 gyda gormod o bwyslais ar gynnwys pwnc yn hytrach na datblygu medrau o'i gymharu â'r CGCC.

39 Mae mwyfwy o ysgolion yn defnyddio cymwysterau Asdan (gweler atodiad 3). Yn aml, mae'r rhain wedi'u haddasu'n dda yn ôl anghenion y dysgwyr hynny sy'n ystyried pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn anniddorol. Nid yw addysgu'r pynciau hyn yn bodloni eu hoff ddull o ddysgu sy'n ffafrio gweithgareddau ymarferol a datblygiad medrau cysylltiedig.

40 Mae rhai ysgolion yn datblygu darpariaeth yn y gwaith ar gyfer eu dysgwyr trwy gydweithio â darparwyr eraill. Mae'r trefniadau hyn yn caniatáu i ddysgwyr ymgymryd â chyfnodau estynedig o addysg sy'n gysylltiedig â gwaith lle gallant ddatblygu eu medrau galwedigaethol mewn lleoliadau gwaith. Er enghraifft, mae rhai ysgolion uwchradd yn ymuno ag ysgolion arbennig a chynradd fel bod eu dysgwyr ôl-16 yn gallu hyfforddi fel cynorthwywyr addysgu tra'u bod ar leoliad gwaith. Gall y dysgwyr hyn fynd ymlaen i ennill CGC lefel 2 fel cynorthwywyr addysgu wedyn. Mae hyn yn arfer dda gan fod y dysgwyr yn ennill profiad a chymhwyster gwerthfawr ac mae'r holl sefydliadau partner yn elwa ar y trefniant. Dyma'r math o drefniant hyblyg y mae menter Llwybrau Dysgu yn anelu at ei sefydlu'n ehangach ar draws Rhwydweithiau 14-19 a rhyngddynt.

Astudiaeth achos – Rhoi cymwysterau gyda'i gilydd

Mae yna nifer o enghreifftiau lle caiff ystod o gymwysterau eu pecynnu gyda'i gilydd i ffurfio fframwaith cymhwyster trosfwaol. Fframwaith cymhwyster trosfwaol yw'r Rhaglen Gweithlu Sgiliau a gynigir mewn pedair ysgol mewn un ardal awdurdod addysg lleol yng nghyfnod allweddol 4. Mae'r pecyn Gweithlu Sgiliau yn cynnwys cymwysterau cynllunio gyrfa Asdan, gwobrau efydd ac arian Asdan, gwobrau Dug Caeredin a chymwysterau yn y medrau allweddol ehangach. Menter ieuenctid yw'r rhaglen Gweithlu Sgiliau a noddir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ac a gefnogir gan y DfES a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n cynnig cwricwlwm galwedigaethol sydd hefyd yn arwain at gymwysterau medrau allweddol. Mae'r rhaglen yn seiliedig ar weithgarwch ac mae ei natur ymarferol yn bodloni dulliau dysgu llawer o'r dysgwyr. Mae hwn yn ffactor pwysig yn ei llwyddiant. Mae'r rhaglen graidd yn canolbwyntio ar ddatrys problemau adeiladu tîm a gwella hunan-barch. Mae'n cydweddu'n agos â nodau Llwybrau Dysgu.

Pa gymwysterau y mae colegau yn eu defnyddio?

41 Mae colegau'n defnyddio cymwysterau sy'n bodloni'n llwyddiannus anghenion dysgwyr sy'n dewis parhau i astudio pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ôl-16, ar lefel TGAU a Safon Uwch, yn ogystal â phynciau academaidd eraill nad ydynt yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, fel seicoleg, y gyfraith a chymdeithaseg.

42 Mae'r rhan fwyaf o golegau yn darparu ystod eang o gymwysterau galwedigaethol o lefel mynediad i lefel 3 ar gyfer dysgwyr amser llawn dros 16 oed.

43 Mewn llawer o golegau, mae diplomâu cyntaf a chenedlaethol yn gynyddol boblogaidd. Penderfynodd llawer o golegau beidio â defnyddio CGCC canolradd ac uwch, ond fe wnaethant barhau i ddarparu diplomâu cyntaf a chenedlaethol yn eu lle. O'u cymharu, mae'r diplomâu yn darparu cyfleoedd gwell i ddysgwyr ddatblygu medrau galwedigaethol, mwy penodol i baratoi ar gyfer cyflogaeth neu addysg uwch. Mae'r rhan fwyaf o ddiplomâu cyntaf a chenedlaethol hefyd yn cynnwys cryn dipyn o brofiad sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae dysgwyr sy'n dilyn diplomâu cenedlaethol yn aml yn astudio CGC a chânt eu hyfforddi a'u hasesu ar gyfer hyn mewn amgylchedd gwaith gwirioneddol. Mae'r TAA bellach wedi disodli'r CGCC uwch, ond mae colegau yn parhau i gynnig y llwybr diploma gan eu bod yn ystyried y TAA yn rhy academaidd yn hytrach na bod yn ffordd o baratoi ar gyfer sector galwedigaethol penodol.

44 Canolfannau peilot ar gyfer datblygu cymhwyster Bagloriaeth Cymru yw dau o bob tri o'r colegau yng Nghymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn defnyddio'r cymhwyster gyda grŵp o ddysgwyr ar gyrsiau penodol. Yn aml, mae hyn ar sail cost neu oherwydd problemau rhwyddineb trin model cwricwlwm newydd i'r hyn sy'n aml yn grwpiau gweddol amrywiol o ddysgwyr.

45 Mae llawer o golegau yn gwneud defnydd da o gymwysterau'r Rhwydwaith Coleg Agored (RhCA) ac maent yn cynnig cymwysterau a dyfarniadau ychwanegol fel tystysgrifau cymorth cyntaf, hylendid bwyd a gofal cwsmeriaid. Caiff y cymwysterau hyn yn aml eu gwerthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr, yn enwedig pan fyddant yn gysylltiedig â gofynion deddfwriaethol.

Pa gymwysterau y mae darparwyr dysgu yn y gwaith yn eu defnyddio?

46 Mae mwyafrif y bobl ifanc mewn darpariaeth dysgu yn y gwaith yn dilyn fframweithiau prentisiaeth fodern naill ai ar lefel 2 neu lefel 3. Mae'r cyngor sgiliau sector perthnasol (gweler atodiad 2) yn pennu cynllun a chynnwys pob prentisiaeth i fodloni gofynion gwahanol alwedigaethau. Mae'r holl brentisiaethau yn gofyn bod dysgwyr yn ennill CGC a medrau allweddol penodol. Rhaid i ddysgwyr sy'n dilyn y prentisiaethau modern uwch ennill tystysgrif dechnegol benodol hefyd. Mae'r prentisiaethau mwyaf poblogaidd mewn adeiladu, peirianneg a gofal.

47 Mae darparwyr dysgu yn y gwaith yn gwneud cynnydd araf wrth weithredu datblygiadau sy'n gysylltiedig â menter Llwybrau Dysgu. Mae llawer o resymau am hyn. Mae llawer o ddysgwyr sy'n dilyn y prentisiaethau modern sylfaen ac uwch yn ei chael yn anodd bodloni holl ofynion y prentisiaethau fframwaith hyfforddiant. Mae cyflwyno tystysgrifau technegol i'r fframweithiau prentisiaeth wedi cynyddu'r her i ddysgwyr.

48 Mewn llawer o achosion, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn tuag at gyflawni eu CGC wrth i'w medrau swydd ddatblygu yn y gweithle, ond cânt drafferth yn cael y gofynion medrau allweddol neu'r dystysgrif dechnegol, neu'r ddau.

49 Ar y cyfan, nid oes digon o Rwydweithiau 14-19 wedi ystyried anghenion dysgwyr yn y gwaith wrth lunio'u cynlluniau datblygu.

Beth am gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg?

50 Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i boblogaeth Cymru drin y ddwy iaith yn gyfartal. Mae'n ofynnol i bob ysgol a choleg gydymffurfio â darpariaethau'r Ddeddf. Mae sefydliadau hyfforddiant preifat y tu allan i gwmpas y Ddeddf.

51 Mae'r rhan fwyaf o gymwysterau TGAU a Safon Uwch ar gael yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Ers 1995, bu'n bosibl cyflawni rhai cymwysterau galwedigaethol yn gyfan gwbl yn Gymraeg neu drwy'r llwybr iaith ddeuol lle gellir defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer cyflwyno gwaith. Mae nifer y cymwysterau galwedigaethol y trefnir eu bod ar gael yn Gymraeg yn cynyddu.

52 Yn 2004, sefydlwyd fforwm Corff Dyfarnu Cyfrwng Cymraeg gan ACCAC i gefnogi cyrff dyfarnu a oedd yn dymuno cynnig cymwysterau galwedigaethol yn Gymraeg. Mae ACCAC hefyd yn cynnig cymhellion a chymorth ariannol i gyrff dyfarnu i ymestyn yr ystod a'r defnydd o gymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg.

53 Rhaid bod gan gyrff dyfarnu sy'n dymuno cynnig cymwysterau yn Gymraeg neu yn y ddwy iaith adnoddau digonol i wneud hynny. Mae hyn yn aml yn broblem lle mae angen nifer fawr o wirwyr neu arholwyr galwedigaethol arbenigol sy'n gallu gweithio yn Gymraeg ar gyfer yr agweddau arbenigol ar rai cymwysterau galwedigaethol. Er gwaethaf cymorth i gyrff dyfarnu gynyddu nifer y cymwysterau sydd ar gael yn Gymraeg, maent yn dal i fod yn brin i fodloni gofynion y dysgwyr.

54 Ychydig iawn o ddeunyddiau addysgu a dysgu sydd yn Gymraeg ar draws ystod y sectorau galwedigaethol. Mae Sgiliaith, y ganolfan ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu Cymraeg, yn gweithio gydag ELWa i ddarparu deunyddiau Cymraeg mewn rhai sectorau fel trin gwallt.

55 Mae yna rai datblygiadau arfaethedig diddorol o ran darpariaeth Gymraeg. Er enghraifft, mae'r pedair ysgol uwchradd Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno tystysgrif lefel 2 CACHE mewn Gofal ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn Gymraeg ar gyfer dysgwyr ôl-16. Bwriedir y bydd y datblygiad hwn yn bodloni'r anghenion am gynorthwywyr dysgu mewn ysgolion a meithrinfeydd Cymraeg.

Sut mae darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno cymwysterau?

56 Mae nifer cynyddol o ysgolion, colegau ac awdurdodau addysg lleol yn datblygu trefniadau i weithio gyda'i gilydd er mwyn gwella ystod y ddarpariaeth alwedigaethol mewn ardal yng nghyfnod allweddol 4.

Astudiaethau achos o bartneriaeth ar waith

Mewn un coleg yng Ngogledd Cymru, darperir ystod eang iawn o gymwysterau ar raglenni cyswllt ysgolion. Gall dysgwyr ysgol brofi ystod eang o feysydd galwedigaethol mewn rhaglen Dyfodol Galwedigaethol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd:

- mewn adeiladu, lle gall dysgwyr gyflawni'r dystysgrif sylfaen mewn galwedigaethau crefft adeiladu a'r diploma cyntaf mewn adeiladu;
- mewn gofal, lle gall dysgwyr ennill ystod eang o ddyfarniadau RhCA mewn meysydd fel gwarchod plant a medrau cychwynnol ar gyfer gofalu, yn ogystal â chymwysterau mewn cymorth cyntaf a hylendid bwyd; ac
- mewn lletygarwch, lle gall dysgwyr weithio tuag at CGC lefel 1 mewn paratoi a gweini bwyd yn ogystal â CGC lefel 2 mewn lletygarwch ac arlwyo.

Mae ystod y cymwysterau sydd ar gael ar y rhaglen Dyfodol Galwedigaethol yn y coleg hwn wedi'u cydweddu'n dda â gwybodaeth am y farchnad lafur ar gyfer yr ardal leol. Mae llawer o'r bobl ifanc ar y rhaglen Dyfodol Galwedigaethol yn gwneud cynnydd da ac maent yn symud ymlaen naill ai i ddysgu yn y gwaith neu i addysg bellach.

Mae coleg arall yng Ngogledd Cymru a sawl ysgol uwchradd mewn dwy ardal awdurdod lleol wedi datblygu partneriaeth lle mae'r coleg yn darparu ystod eang o gyrsiau ar lefel mynediad a lefel 1 sy'n arwain at gymwysterau priodol ar gyfer dysgwyr yn y gwaith. Felly, gall dysgwyr mewn ysgolion gael mynediad at ddewis da o gyfleoedd galwedigaethol. Mae dros 300 o ddysgwyr yn yr ysgol ar hyn o bryd yn cymryd rhan yn y cynllun llwybrau galwedigaethol hwn.

57 Hyd yn oed lle mae yna weithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a cholegau, nid oes digon o gyfleoedd i ddysgwyr cyfnod allweddol 4 o fewn y trefniant i ennill cymwysterau galwedigaethol ar lefel 2. Nid yw'r rhan fwyaf o bartneriaethau a chanolfannau eto'n cynnig digon o ddewisiadau galwedigaethol ar lefel 2, a lle maent yn eu cynnig, mae fel arfer wedi'i gyfyngu i CGCC. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae rhieni a dysgwyr yn aml yn amgyffred mai dewis ar gyfer y dysgwyr hynny na allant lwyddo yn y llwybrau academaidd, mwy traddodiadol yn unig yw'r llwybr galwedigaethol.

58 Ar y cyfan, er bod y trefniadau partneriaeth hyn yn datblygu ledled Cymru, nid oes digon ohonynt. Hefyd, mae eu graddau a'u heffaith yn dal yn fach o ran niferoedd y

dysgwyr sy'n cymryd rhan. Mae gormod o ddarparwyr yn gweithio ar wahân ac yn parhau i gystadlu â'i gilydd am ddysgwyr ôl-16. Lle mae hyn yn digwydd, ni chaiff anghenion a diddordebau dysgwyr y flaenoriaeth briodol wrth gynllunio'r ddewislen o ddewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr.

Sut mae cyrff dyfarnu yn datblygu cymwysterau?

59 Mae cyrff dyfarnu, fel CGLI, Edexcel ac OCR, yn darparu cymwysterau ar lefel mynediad ac ar lefel 1 y maent wedi'u cynllunio ar gyfer dysgwyr ar gyrsiau a chynlluniau rhagarweiniol. Mae rhai darparwyr yn dechrau gwneud defnydd da o'r cymwysterau hyn. Maent yn aml yn fwy addas na CGCau ar lefel 1 ar gyfer dysgwyr cyn 16.

60 Mae enghreifftiau o'r dyfarniadau hyn yn cynnwys y dystysgrif sylfaen mewn crefftau adeiladu, y dystysgrif lefel mynediad mewn paratoi ar gyfer gwaith yn y sector gofal (CGLI), y dystysgrif lefel 1 mewn gwasanaethau salon (CGLI) fel cyflwyniad i drin gwallt a therapi harddwch, a thystysgrif BTEC lefel 1 mewn trin gwallt.

61 Cyflwynwyd cymhwyster TAA i ddisodli'r CGCC ar lefel uwch. Ers hynny, trefnwyd bod y cymhwyster ar gael mewn tri model gwahanol. Mae yna lefel tair uned (cyfwerth â chymhwyster lefel UG), lefel chwe uned (cyfwerth â chymhwyster Safon Uwch), a lefel deuddeg uned (cyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch). Mae poblogrwydd y lefelau deuddeg uned a chwe uned wedi gostwng, ond daeth y model tair uned yn fwy poblogaidd gan ei fod yn caniatáu dewisiadau ehangach.

62 Mae'r cymwysterau CGCC sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd ar lefel ganolradd a sylfaen yn cael eu tynnu'n ôl dros y ddwy flynedd nesaf. Cyhoeddodd y QCA arweiniad ar ddewisiadau amgen priodol ym mis Tachwedd 2005. Ar lefel sylfaen, y cymwysterau amgen mwyaf addas a awgrymwyd yw diplomâu rhagarweiniol BTEC (Cyngor Addysg Busnes a Thechneg) Edexcel, dyfarniadau cenedlaethol lefel 1 OCR a TGAU galwedigaethol ar raddau D-G. Ar lefel ganolradd, y dewisiadau eraill yw tystysgrifau a diplomâu cyntaf BTEC Edexcel, dyfarniadau cenedlaethol lefel 2 OCR a TGAU galwedigaethol ar raddau A*-C.

63 Fodd bynnag, nid oes yr un o'r cymwysterau hyn yn bodloni'r anghenion a fodlonir gan y CGCC ar hyn o bryd ar lefelau canolradd a sylfaen fel cyflwyniad cyffredinol i astudio galwedigaethol. Mae ysgolion yn aml yn amgyffred TGAU Cymhwysol fel pynciau cyfnod allweddol 4 ac mae dysgwyr yn aml yn eu gweld yn rhy debyg i bynciau TGAU eraill. Yn aml, mae angen adnoddau mwy arbenigol ar gymwysterau BTEC ac OCR na CGCCau.

64 Mae Atodiad 3 yr adroddiad hwn yn dangos yr ystod o gymwysterau a dyfarniadau galwedigaethol sydd ar gael i ddarparwyr i'w defnyddio yn yr ystod oedran 14-19.

Sut mae ACCAC yn datblygu cymwysterau?

65 Mae ACCAC ar hyn o bryd yn ymgymryd â gwaith ar ddatblygu ac adolygu'r cwricwlwm sy'n debygol o gydweddu â nodau menter Llwybrau Dysgu o ran darparu mwy o ddewis a hyblygrwydd i ddysgwyr.

66 Mae adolygiad ACCAC o gwricwlwm cyfnod allweddol 4 yn datgan bod, "angen adolygu cymwysterau sydd eisoes yn bod yng nghyfnod allweddol 4 i roi mwy o hyblygrwydd a gwobr i fwy o ddysgwyr. Mae angen cynnal TGAU fel cymhwyster sefydledig, ond eu hehangu i gynnwys ystod ehangach o hoff ddulliau dysgu a

chynnwys pwnc. Mae angen gwneud mwy o ddefnydd o ystod ehangach o gymwysterau i gymell a gwobrwyo dysgwyr, gan gynnwys y rheiny sydd wedi dadrithio a'r rheiny ar y naill ben a'r llall o'r ystod gallu."

67 Mae hefyd yn debygol y bydd gwaith ACCAC ar ddatblygu Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig yn cynnwys fframwaith ar gyfer medrau cyffredin.

Pa gyfraniad y mae Bagloriaeth Cymru yn ei wneud at Lwybrau Dysgu?

68 Mae gan Fagloriaeth Cymru lawer o elfennau sy'n gyffredin i Lwybrau Dysgu. Mae'n rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau allweddol, addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, cyfranogiad mewn gwaith y tu allan i amgylchedd yr ysgol/coleg, a gwaith prosiect unigol. Mae gan y cymhwyster graidd dysgu ac mae yna bwyslais cryf ar ddarparu cymorth personol a thiwtorial.

69 Mae nifer fach o ysgolion a cholegau yng Nghymru wedi cynnal cynllun peilot o'r cymhwyster gyda dysgwyr dros 16 oed ers 2003. Gall dysgwyr ennill y cymhwyster ar lefel ganolradd ac uwch. Mae yna gynlluniau i ddatblygu Bagloriaeth Cymru ar lefel sylfaen hefyd.

70 Mae Craidd Bagloriaeth Cymru yn cynnwys:

- Cymru, Ewrop a'r byd gan gynnwys modiwl iaith (CEB);
- Addysg bersonol a chymdeithasol gan gynnwys cyfranogiad y gymuned (ABCh);
- Addysg sy'n gysylltiedig â gwaith gan gynnwys profiad gwaith a menter (AGG); a
- Medrau allweddol ar lefelau priodol.

71 Cymhwyster trosfwaol yw Bagloriaeth Cymru sy'n 'amlapio' cymwysterau sydd eisoes yn bod fel cymwysterau Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol. Mae Bagloriaeth Cymru hefyd yn rhoi pwyslais cryf ar gymorth personol trwy raglen diwtorial.

72 Mae'r canolfannau peilot wedi cymryd ymagweddau gwahanol at y cymhwyster ac mae dysgwyr yn cael profiadau gwahanol iawn o Fagloriaeth Cymru yn dibynnu ar y ffordd y mae pob darparwr wedi penderfynu cyflwyno'r rhaglen.

73 Mae yna amrywiad sylweddol yn yr ymagweddau a gymerir at addysg sy'n gysylltiedig â gwaith yn y cymhwyster. Yn yr arfer orau, mae dysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol yn defnyddio rhaglenni profiad gwaith sydd wedi'u strwythuro'n dda i gynnal cofnod o weithgarwch a gallant gyflawni cymhwyster RhCA o ganlyniad. Mae canolfannau eraill yn defnyddio swyddogion gyrfaoedd yn dda i gynorthwyo â threfnu lleoliadau sydd wedi'u cydweddu'n dda â dyheadau gyrfa dysgwyr a'u hastudiaethau. Nid yw rhai darparwyr yn gofyn i ddysgwyr ymgymryd â chyfnod strwythuredig o brofiad gwaith. Yn gyffredinol, nid oes digon o gyfleoedd i achredu'r medrau y mae dysgwyr yn eu hennill trwy brofiad gwaith ar wahân i ddarparu tystiolaeth ar gyfer y medrau allweddol ehangach.

74 Ar y dechrau, roedd cyflwyno medrau allweddol yn cynnig llawer o heriau yn y rhan fwyaf o ganolfannau. Yn yr arfer orau, roedd darparwyr yn integreiddio medrau allweddol i gyflwyno ac asesu'r dewisiadau a'r cwricwlwm craidd. Yn aml, gwneir hyn orau ar gyrsiau galwedigaethol mewn colegau lle'r oedd athrawon wedi datblygu

medrau integreiddio medrau allweddol i raglenni dysgu ymhell cyn cyflwyno Bagloriaeth Cymru. Yn gyffredinol, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n gweld perthnasedd medrau allweddol lle mae athrawon yn eu cyflwyno fel pynciau sy'n 'sefyll ar eu pen eu hunain'.

75 Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n dilyn Bagloriaeth Cymru yn ennill ystod eang o fedrau perthnasol trwy eu dysgu y tu allan i amgylchedd yr ysgol/coleg ac maent yn frwdfrydig am eu profiadau. Fodd bynnag, mae llawer wedi gweld y gofynion yn rhy drwm ac maent wedi tynnu'n ôl.

76 Mae darparwyr yn datblygu eu hymagwedd at y cymhwyster wrth i'r cynllun peilot ddatblygu. Mae canolfannau newydd yn ymuno â'r cynllun peilot dros gyfnod ac maent yn elwa ar y gwersi a ddysgwyd wrth i'r cynllun peilot symud ymlaen. Er enghraifft, gwelwyd gwelliant o ran cyflwyno a chyrhaeddiad medrau allweddol yn ystod ail flwyddyn y cynllun peilot, felly mae yna dystiolaeth bod darparwyr yn dechrau mynd i'r afael â'r materion hyn a rhannu arfer dda.

77 Ar y cyfan, mae gan Fagloriaeth Cymru'r potensial i fodloni anghenion a dyheadau llawer o ddysgwyr ôl-16. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau peilot yn parhau i fod yn ddatblygiadol ac maent ar hyn o bryd ond yn cynnwys nifer gymharol fach o ddysgwyr ledled Cymru. Nid oes digon o ddysgwyr wedi bod trwy'r cymhwyster i lunio barnau cadarn am ei lwyddiant cyffredinol o ran cyfraddau cyrhaeddiad. Bydd yn her sylweddol i ddarparwyr gyflwyno'r cymhwyster yn raddol yn llwyddiannus i bob ysgol a choleg. Nid yw rhwydweithiau 14-19 yn y rhan fwyaf o ardaloedd eto yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o gynnal cynllun peilot o Fagloriaeth Cymru wrth ddatblygu eu cynlluniau.

Beth yw effaith dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith ar ddysgwyr?

78 Mae dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith bellach yn ofyniad statudol ar gyfer pob dysgwr yng nghyfnod allweddol 4. Mae hyn yn cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- dysgu trwy waith trwy ymgymryd â phrofiad gwaith uniongyrchol neu gyflogaeth ran-amser;
- dysgu am waith trwy roi cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth trwy gyrsiau galwedigaethol ac addysg gyrfaoedd; a
- dysgu trwy waith trwy ddatblygu medrau ar gyfer menter a chyflogadwyedd.

79 Lle mae dysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol, mae profiad gwaith yn aml yn rhan annatod o'r cwrs ac mae darparwyr yn defnyddio dyfarniadau RhCA yn dda i roi canmoliaeth i ddysgwyr am yr hyn y maent wedi'i ddysgu trwy'r dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith. Mewn darparwyr lle nad oes rhyw lawer o ddysgu galwedigaethol, mae rhai'n defnyddio'r cymwysterau medrau allweddol ehangach yn effeithiol fel ffordd o roi rhywfaint o ganmoliaeth i ddysgwyr am eu profiadau sy'n gysylltiedig â gwaith. Mae Gyrfa Cymru wedi datblygu dyddiadur da ar gyfer casglu tystiolaeth yn ystod profiad gwaith. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddarparwyr yn gofyn i ddysgwyr ddefnyddio'r dyddiadur hwn yn ddigon aml.

80 Ar y cyfan, mae effaith dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith gryfaf lle mae dysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol ac yn treulio cyfnodau sylweddol mewn lleoliadau gwaith. Prin y mae'n cyfrannu at ddatblygiad dysgwyr yn y rhan fwyaf o leoliadau eraill, yn enwedig lle mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dilyn llwybrau ôl-16 academaidd cyffredinol.

Beth yw rôl ac effaith Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru?

81 Lansiwyd Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (FfCChC) yn 2003. Fe'i cynlluniwyd i gynnig cydraddoldeb o ran parch ar gyfer dysgwyr o bob oed boed nhw yn dysgu yn y gweithle, neu yn y gymuned, yn yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol yn ogystal â chydnabod cyflawniad ble bynnag y mae dysgu'n digwydd. Mae'n croesawu cymwysterau yn y fframwaith cymwysterau cenedlaethol, y cymwysterau addysg uwch a rhaglenni dysgu anffurfiol/nad ydynt yn ffurfiol.

82 'Credyd' yw sylfaen strwythur FfCChC, sef uned ddysgu. Mae cyflawniad mewn dysgu yn cael gwahanol symiau o gredyd yn dibynnu faint o amser a gymerir i ddysgu. Mae un credyd yn gyfwerth â chanlyniadau dysgu a gyflawnwyd ymhen rhyw 10 awr o amser dysgu. Un o fanteision pwysig fframwaith credydau a chymwysterau yw y gall dysgwyr gasglu credydau, symud trwyddynt ar wahanol lefelau a'u trosglwyddo o un darparwr i'r llall. Mae hefyd yn caniatáu dysgwyr i ddatblygu rhaglen ddysgu sydd wedi'i theilwra i'w hanghenion a'u gobeithion penodol. Yn olaf, mae fframwaith o'r fath yn caniatáu rhoi cymwysterau galwedigaethol a chyffredinol ochr yn ochr â'i gilydd a chael rhywfaint o gywerthedd o ran eu gwerth credyd. Fel hyn, mae gan y gwaith sy'n gysylltiedig â FfCChC y potensial i fodloni llawer o agweddau ar yr agenda Llwybrau Dysgu.

83 Mae cyrff dyfarnu, Cynghorau Sgiliau Sector a darparwyr unigol yn aml yn datblygu ac yn rheoli eu cyrsiau a'u cymwysterau o ran unedau a modiwlau. Mae FfCChC yn gweithio gyda chyrff dyfarnu a Chynghorau Sgiliau Sector i ddarganfod ffyrdd o gysylltu unedau â chredydau fel y gellir dyfarnu credydau i ddysgwyr wrth iddynt symud trwy eu cyrsiau.

84 Ar y cyfan, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill cymwysterau galwedigaethol yn aml yn rhy isel. Mae gormod yn tynnu'n ôl ac nid yw rhai'n ennill yr un cymhwyster, hyd yn oed lle maent wedi cwblhau llawer o rannau o'u cymhwyster. Un o fanteision arwyddocaol fframwaith credydau yw y gallai ddyfarnu credydau i ddysgwyr am ennill cymhwyster yn rhannol. Byddai fframwaith o'r fath hefyd yn helpu'r dysgwyr hyn i ddychwelyd i gyfleoedd addysg a hyfforddiant yn ddiweddarach lle gallent adeiladu ar y credyd y maent eisoes wedi'i gyflawni.

85 Ar y cyfan, mae effaith FfCChC ar ddysgwyr yn gyfyngedig hyd yn hyn. Mae hyn oherwydd bod y problemau sy'n ymwneud â dyrannu credydau i gymaint o wahanol gyrsiau a chymwysterau yn gymhleth. Bu'r cynnydd tuag at weithredu system sy'n seiliedig ar gredydau yn araf.

Astudiaeth achos o FfCChC ar waith

Hon yw'r ail flwyddyn i un ysgol uwchradd ddarparu cwrs galwedigaethol cyffredinol ar gyfer dysgwyr blwyddyn 12. Gall dysgwyr ddewis chwe uned o'r cwrs Diploma Cyntaf BTEC mewn pedwar llwybr galwedigaethol gwahanol. Mae pob uned yn werth chwe chredyd. Mae hwn yn becyn arloesol ac mae'n boblogaidd ymhlith dysgwyr. Gall dysgwyr samplu ystod eang o ddewisiadau. Fodd bynnag, er bod llawer o gryfder i'r datblygiad, nid oes digon o gyfle i ddysgwyr 'glystyru' unedau o amgylch themâu galwedigaethol. Nid oes digon o gyfleoedd i ddysgwyr ennill medrau allweddol na chymryd rhan mewn profiad sy'n gysylltiedig â gwaith. Ni all dysgwyr ennill y dyfarniad ar lefel teilyngdod nac anrhydedd chwaith. Ar y cyfan, nid yw'r datblygiad yn cydweddu â'r ymagwedd a arweinir gan fedrau sector i ddatblygu cymhwyster galwedigaethol.

Casgliad

86 Mae ystod ac amrywiaeth y cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yn cynyddu, ond mae eu defnydd wedi'i gyfyngu gan y cyflymdra y mae darparwyr unigol a rhwydweithiau 14-19 yn ymateb i her menter Llwybrau Dysgu. Mae goblygiadau hefyd i hyfforddi'r rheiny sy'n rhoi gwybodaeth i ddysgwyr ac i godi ymwybyddiaeth am y cyfleoedd dysgu sydd ar gael.

Atodiad 1: Y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol

Bellach, mae gan y fframwaith cymwysterau cenedlaethol naw lefel ac mae'r holl gymwysterau achrededig ar lefel benodol mewn sector penodol. Fe'i cyflwynwyd i helpu dysgwyr, athrawon, hyfforddwyr, cyflogwyr, prifysgolion a cholegau i ddeall yr ystod o gymwysterau a gynigir ac i ddangos llwybrau dilyniant. Mae yna dros 4000 o gymwysterau yn y fframwaith, a dim ond cymwysterau a gymeradwywyd gan gyrff rheoleiddio (QCA, ACCAC a CCEA) sydd o fewn y fframwaith. Priodolir pob un o'r cymwysterau achrededig i un o 15 categori sector/pwnc. Mae dros 100 o gyrff dyfarnu yn gyfrifol am ddarparu'r cymwysterau.

Yn unol â darpariaethau Adran 96 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, gall ysgolion, colegau a darparwyr dysgu eraill ond cynnig cymwysterau allanol i ddysgwyr o dan 19 oed sydd wedi'u cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Adran 97 yr un Ddeddf yn berthnasol i ddysgwyr dros 19 oed mewn addysg bellach. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa yn cydnabod ac yn cymeradwyo defnyddio ystod gyfyngedig o ddyfarniadau y tu allan i'r fframwaith lle maent yn arbennig o addas i angen ac nad oes dewisiadau eraill addas yn y fframwaith cymwysterau. Mae'r fframwaith yn rhoi gwybod i ddysgwyr a darparwyr am yr ystod o gymwysterau sydd ar gael ar eu cyfer a'r berthynas rhyngddynt.

Mae'r fframwaith cenedlaethol yn cynnwys yr holl gymwysterau achrededig. Mae gan bob cymhwyster lefel, sy'n amrywio o lefel mynediad i lefel 8, a theitl sy'n nodi'r corff dyfarnu, natur y dyfarniad, a'r sector/pwnc yn glir.

Mae yna nifer fawr o ddyfarniadau sydd y tu allan i'r fframwaith cymwysterau cenedlaethol. Yn gyffredinol, dosberthir y rhain yn gymwysterau nad ydynt yn ffurfiol (e.e. Gwobr Dug Caeredin) neu'n gymwysterau anffurfiol (dyfarniadau RhCA lleol a dyfarniadau fel dyfarniadau Pacific Institute). Gwneir defnydd eang o lawer o'r rhain gan ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant ar gyfer cynlluniau dysgu a hyfforddi penodol.

Y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol

Lefel	Enghreifftiau o gymwysterau	Dangosyddion lefel
3	Safon Uwch, TGAU, CGC lefel 3, medrau allweddol lefel 3, tystysgrifau a diplomâu cenedlaethol BTEC, cymwysterau cenedlaethol OCR lefel 3, Tystysgrif ASDAN mewn effeithiolrwydd personol lefel 3, Diploma CACHE mewn Gofal Plant ac Addysg	Adnabod y gallu i ennill, a lle y bo'n berthnasol, cymhwyso ystod o wybodaeth, medrau a dealltwriaeth yn annibynnol.
2	Graddau TGAU A*-C, CGC lefel 2, tystysgrifau a diplomâu cyntaf BTEC, cymwysterau cenedlaethol OCR lefel 2, Tystysgrif ASDAN mewn effeithiolrwydd personol ar lefel 2, medrau allweddol ar lefel 2.	Adnabod y gallu i ennill gwybodaeth a dealltwriaeth dda a pherfformio tasgau amrywiol gyda rhywfaint o arweiniad a goruchwyliaeth.
1	Graddau TGAU D-G, CGC lefel 1, medrau allweddol lefel 1, tystysgrifau a diplomâu rhagarweiniol BTEC, cymwysterau cenedlaethol OCR ar lefel 1, Tystysgrif Sylfaen mewn Trin Bwyd	Y gallu i gymhwyso gwybodaeth gydag arweiniad neu oruchwyliaeth.
Mynediad	Tystysgrif ASDAN mewn Medrau Bywyd ar lefel mynediad 1,2 a 3, Medrau BTEC ar gyfer bywyd gwaith, Tystysgrifau mewn Rhifedd/Llythrennedd Oedolion	Adeiladu gwybodaeth a medrau sylfaenol.

Atodiad 2: Cynghorau Sgiliau Sector

Sefydliadau annibynnol, ledled y DU, a arweinir gan gyflogwr yw Cynghorau Sgiliau Sector (CSSau) sy'n sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi addas ar gael ym mhob un o brif sectorau'r economi ledled y DU. Maent yn cynnwys undebau llafur, cyrff proffesiynol a rhanddeiliaid eraill yn weithredol ym mhob sector.

Mae gan bob cyngor sgiliau sector gyfrifoldeb i:

- leihau bylchau a phrinder medrau;
- gwella cynhyrchiant a pherfformiad gwasanaeth;
- cynyddu cyfleoedd i hybu medrau; a
- gwella cyflenwad dysgu.

CSSau yw'r cyrff sy'n gyfrifol am ddatblygu safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC) i fodloni anghenion eu sector. Ochr yn ochr â'r Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector (SSDA), maent yn ffurfio'r Rhwydwaith Sgiliau i Fusnes.

Atodiad 3: Cymwysterau a ddefnyddir yn gyffredin

TGAU

Mae TGAU yn sefyll am Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd. Cynhaliwyd yr arholiadau TGAU cyntaf ym 1988 ar ôl uno arholiadau Lefel O TAG ac arholiadau TAU. Bydd arholiadau am y cymhwyster fel arfer yn cael eu sefyll ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, maent ar gael i unrhyw un a hoffai ennill cymhwyster mewn pwnc y mae ganddynt ddiddordeb ynddo. Mae TGAU ar gael mewn 45 pwnc. TGAU yw craidd cwricwlwm cyfnod allweddol 4.

Safon Uwch

Caiff cyrsiau Safon Uwch fel arfer eu cymryd fel cwrs dwy flynedd sy'n ddilyniant naill ai o TGAU neu gymhwyster cyfwerth. Ystyrir mai Safon Uwch yw'r prif lwybr i addysg uwch a/neu gyflogaeth. Gellir dilyn cyrsiau Safon Uwch mewn dros 80 o bynciau.

Unwyd yr holl gyrsiau Safon Uwch yn 2000 a gall ymgeiswyr astudio unedau wrth iddynt symud trwy'r cwrs yn hytrach na chael eu harholi mewn un sesiwn. Cymhwyster ar ei ben ei hun yw'r cymhwyster uwch gyfrannol (UG), ac mae'n werth hanner cymhwyster Safon Uwch llawn. A2 yw ail hanner cymhwyster Safon Uwch llawn. Yn gyffredinol, mae'r UG yn cynnwys deunydd llai beichus y cwrs Safon Uwch.

Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol - CGCCau

Cyflwynwyd CGCCau gyntaf ym 1992 fel cyfres o gymwysterau galwedigaethol cyffredinol yn ogystal â chymwysterau yn lle diplomâu cyntaf a chenedlaethol y Cyngor Addysg Busnes a Thechnegol (BTEC). I ddechrau, roeddent ar gael mewn ystod o bum pwnc. Roedd dyfarniadau ar gael ar lefel uwch a chanolradd ac yn ddiweddarach ar lefel sylfaen. Yn 2002, disodlwyd y CGCC uwch gan y Dystysgrif Addysg Alwedigaethol (TAA), sydd ar gael mewn cyfuniadau 12 uned, chwe uned neu dair uned.

Mae CGCCau ar lefel sylfaen (lefel 1, cyfwerth â phedwar cymhwyster TGAU gradd D-G) a chanolradd (lefel 2, cyfwerth â 4 cymhwyster TGAU gradd A*- C) yn cael eu diddymu'n raddol rhwng 2005 a 2007 ond maent yn dal i gael eu defnyddio mewn llawer o ysgolion a cholegau ledled Cymru. Maent yn parhau'n ddyfarniadau poblogaidd, ac maent yn denu myfyrwyr nad ydynt wedi perfformio'n dda mewn TGAU yn yr ysgol gan eu bod yn canolbwyntio mwy ar ddatblygu medrau mewn cyd-destun galwedigaethol. Maent yn arbennig o boblogaidd pan gânt eu cyflwyno fel cwrs blwyddyn ôl-16 mewn ysgolion a cholegau. Y pynciau mwyaf poblogaidd yw iechyd a gofal cymdeithasol, hamdden a thwristiaeth, busnes, peirianneg, celf a dylunio a'r celfyddydau perfformiadol.

TGAU mewn pynciau galwedigaethol

Cyflwynwyd TGAU Galwedigaethol yn 2002. Maent yn ymwneud â maes galwedigaethol penodol a chânt eu hasesu trwy waith cwrs yn bennaf. Y bwriad oedd iddynt ddisodli CGCC rhan un mewn wyth maes pwnc. Maent gyfwerth â dyfarniad TGAU dwbl. Dyma'r pynciau a gynigir:

- Celf a dylunio cymhwysol;
- Busnes cymhwysol;
- Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu cymhwysol;
- Gwyddoniaeth gymhwysol;
- Peirianneg;
- Iechyd a gofal cymdeithasol;
- Hamdden a thwristiaeth; a
- Gweithgynhyrchu.

Tystysgrifau Addysg Galwedigaethol – Safon Uwch TAA

Cyflwynwyd Tystysgrifau Addysg Galwedigaethol i ddisodli'r cymhwyster CGCC lefel uwch yn 2002. Bydd nawr yn cael ei ailstrwythuro yn debyg i gyrsiau Safon Uwch gyda strwythur UG/A2. Mae ar gael fel dyfarniad sengl a dwbl gydag uchafswm o hyd at 12 uned ar gael. Ym mhob dyfarniad, caiff un o bob tair uned eu profi'n allanol, gyda'r gweddill yn cael eu hasesu'n fewnol. Maent ar gael yn y pynciau canlynol:

- Celf a dylunio cymhwysol;
- Busnes cymhwysol;
- Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu gymhwysol;
- Gwyddoniaeth gymhwysol;
- Peirianneg;
- Iechyd a gofal cymdeithasol;
- Astudiaethau hamdden
- Y Cyfryngau, cyfathrebu a chynhyrchu;
- Y Celfyddydau perfformiadol; a
- Theithio a thwristiaeth.

Dyfarniadau Cenedlaethol BTEC – Lefel 3 (Edexcel)

Dyfarniadau â ffocws galwedigaethol yw diplomâu cenedlaethol BTEC sydd wedi cael eu defnyddio ers tro mewn colegau. Maent wedi cael eu gwerthfawrogi'n benodol fel modd o ddatblygu medrau â ffocws galwedigaethol, gan ddarparu mynediad i lwybrau cyflogaeth penodol fel y gwasanaethau cyhoeddus ac fel llwybr i addysg uwch.

Cynllunir diploma cenedlaethol BTEC i'w gyflwyno yn yr amser a ddyrennir ar gyfer tri chwrs Safon Uwch. Roedd tystysgrif genedlaethol BTEC yn wreiddiol gyfwerth â thystysgrif ran-amser y diploma i bobl ifanc mewn cyflogaeth cyn cyflwyno'r system gyfredol o brentisiaethau modern. Ystyrir ei fod nawr gyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch. Mae'r dyfarniad cenedlaethol mwy newydd gyfwerth ag un cymhwyster Safon Uwch. Roedd CGCCau ar lefel uwch wedi'u bwriadu i ddisodli'r cynllun diploma cenedlaethol yn wreiddiol, ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ers disodli'r CGCC uwch gyda TAA, mae diplomâu cenedlaethol BTEC wedi adennill eu poblogrwydd blaenorol ac maent hefyd yn cael eu cyflwyno gan rai ysgolion mewn pynciau dethol. Fel arfer, mae'n ofynnol i ddysgwyr fod wedi ennill o leiaf pedwar cymhwyster TGAU graddau A*- C fel gofyniad mynediad i ddyfarniad cenedlaethol.

Mae cymwysterau diploma cenedlaethol yn aml yn hynod benodol, ac mae yna dros 500 o deitlau arbenigol ar gael. Er enghraifft, yn y celfyddydau perfformiadol, gellir ennill cymwysterau yn y dewisiadau canlynol:

- Technoleg y theatr;
- Dylunio llwyfan;
- Adeiladu set;
- Cynhyrchu;
- Perfformio – Drama;
- Theatr gerdd; a
- Cholur.

Dyfarniadau Cyntaf BTEC – Lefel 2 (Edexcel)

Cynlluniwyd y cymhwyster diploma cyntaf BTEC yn wreiddiol fel cymhwyster blwyddyn ôl-16, sy'n fras yn gyfwerth ag ennill pedwar cymhwyster TGAU graddau A*- C. Fe'i cynlluniwyd i'w gyflwyno ymhen blwyddyn yn amser llawn ac mae gofyn bod dysgwyr yn cwblhau chwe uned astudio. Cynlluniwyd y CGCC canolradd yn wreiddiol i ddisodli diplomâu cyntaf BTEC. Fodd bynnag, mae diploma cyntaf BTEC wedi parhau'n boblogaidd, yn enwedig oherwydd ei fod yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu medrau galwedigaethol yn benodol. Mae wedi'i fwriadu fel cymhwyster uniongyrchol i ddisodli'r cymhwyster CGCC canolradd. Mae cymhwyster tystysgrif cyntaf gyfwerth â thair uned. Mae yna dros 15 maes pwnc ar gael.

Dyfarniadau Rhagarweiniol BTEC (Edexcel)

Cymwysterau lefel 1 (sylfaen) yw'r rhain y gellir eu hastudio naill ai fel tystysgrif (cyfwerth â dyfarniad sylfaen TGAU dwbl) neu fel diploma (cyfwerth â dau ddyfarniad dwbl). Maent ar gael yn y pynciau canlynol:

- Celf a dylunio;
- Busnes;
- Adeiladu a'r amgylchedd adeiledig;
- Peirianneg;
- Iechyd a gofal cymdeithasol;
- Teithio a thwristiaeth;
- Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
- Gweithgynhyrchu; a
- Gwyddoniaeth.

Diploma mewn Cymwysiadau Digidol – DiDA (Edexcel)

Cyfres o gymwysterau yw'r rhain sydd ar gael naill ai fel dyfarniad, sydd gyfwerth ag un cymhwyster TGAU, neu dystysgrif, sydd gyfwerth â dau gymhwyster TGAU neu ddiploma, sydd gyfwerth â phedwar cymhwyster TGAU. Gellir eu hastudio ar lefelau sylfaen a chanolradd. Maent wedi'u bwriadu i fod yn gymwysterau heb bapur sy'n canolbwyntio ar gymhwyso technoleg yn ymarferol. Maent wedi'u cynllunio i ysgogi dawn greadigol dysgu a datblygu medrau ymarferol gwirioneddol a fydd yn cymell dysgu ar draws ystod eang o bynciau.

Cymwysterau Cenedlaethol RhCA

Cyflwynwyd cymwysterau cenedlaethol RhCA yn ddiweddar gan gorff dyfarnu Oxford, Cambridge and RSA. Ystod o gymwysterau sydd â gogwydd galwedigaethol ydynt sydd wedi'u hanelu'n bennaf at ddysgwyr ôl-16. Gellir ennill tystysgrifau a dyfarniadau cenedlaethol RhCA ar lefelau 1, 2 a 3 mewn ystod o ddewisiadau galwedigaethol. Yn gyffredinol, nid ydynt mor alwedigaethol benodol â dyfarniadau BTEC. Mae rhai ysgolion yn anelu at gyflwyno lefel 1 a dau ddyfarniad yn lle CGCC ar lefel sylfaen a chanolradd. Yn gyffredinol, mae cymwysterau cenedlaethol RhCA ar gael mewn ystod mwy cyfyng o arbenigeddau na chymwysterau BTEC.

Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol – Lefelau 1-5

Cymwysterau galwedigaethol penodol yw CGCau a gynlluniwyd i fodloni anghenion cyflogwyr mewn galwedigaethau unigol. Caiff manyleb pob cymhwyster ei rheoli gan

y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y maes galwedigaethol. Mae'r cymhwyster yn seiliedig ar arddangos gallu yn y gweithle. Maent wedi'u cynllunio ar gyfer eu cyflwyno a'u hasesu yn y gweithle. Mae pob fframwaith prentisiaeth fodern sylfaen ac uwch yn seiliedig ar CGCau ar lefel 2 a lefel 3 mewn galwedigaethau penodol. Mae llawer o gyflogwyr yn cyflwyno CGCau, yn aml ar y cyd â darparwr dysgu yn y gwaith. Nid oes yn rhaid cwblhau CGCau o fewn graddfa amser benodol, ac nid oes gofynion mynediad penodol, ond yn y rhan fwyaf o achosion, mae cymwysterau ar lefel 3 ac yn uwch yn gofyn bod ymgeiswyr wedi ennill gallu ar lefel 2 cyn symud ymlaen i'r lefel uwch. Mae ystod eang iawn o gyrff dyfarnu yn achredu CGCau.

Cymwysterau lefel mynediad

Cyflwynwyd cymwysterau lefel mynediad gyntaf ym 1997 i gydnabod bod llawer o bobl ifanc a oedd yn dechrau cyflogaeth nad oeddent eto'n barod i weithio ar lefel un y fframwaith cymwysterau cenedlaethol (FfCC).

Mae yna dair is-lefel o fewn lefel mynediad, sef:

- Lefel mynediad 1 sy'n fras yn gyfwerth â lefel un y cwricwlwm cenedlaethol;
- Lefel mynediad 2 sy'n fras yn gyfwerth â lefel dau'r cwricwlwm cenedlaethol; a
- Lefel mynediad 3 sy'n fras yn gyfwerth â lefel tri'r cwricwlwm cenedlaethol ac ychydig yn is na CGC lefel 1.

Gall dysgwyr weithio trwy bob un o dair lefel y cymwysterau mynediad ac wedyn i lefel 1 y fframwaith cymwysterau cenedlaethol. Cynigir cymwysterau lefel mynediad gan ystod eang o sefydliadau gan gynnwys colegau, ysgolion prif ffrwd ac arbennig (cyn ac ôl-16) yn ogystal â darparwyr dysgu yn y gwaith a sefydliadau gwirfoddol. Fe'u defnyddir yn aml ochr yn ochr â chymwysterau mewn medrau sylfaenol. Mae pob corff dyfarnu'n cynnig ystod eang iawn o gymwysterau lefel mynediad.

Mae enghreifftiau o'r cymwysterau hyn yn cynnwys Medrau ar gyfer Bywyd Gwaith – BTEC Edexcel lefel mynediad 1-3. Defnyddir y cymwysterau hyn yn eang, ac maent yn cynnwys, er enghraifft, medrau crefft metel, trin gwallt a harddwch a lletygarwch ac arlwyo.

Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys cymwysterau lefel mynediad Asdan fel Tystysgrif mewn Medrau Bywyd ar lefelau mynediad 1, 2 a 3 ac mae cymwysterau City and Guild's yn cynnwys y dystysgrif i baratoi ar gyfer cyflogaeth (lefel mynediad 2 a 3).

Datblygu Cynllun Dyfarnu a Dyfarniadau Rhwydwaith Agored (ASDAN)

Sefydlwyd ASDAN fel corff dyfarnu ar ddechrau'r 1990au yn dilyn gwaith ymchwil arloesol a nododd fod angen cydnabod a gwobrwyo medrau cymdeithasol a phersonol pobl ifanc yn yr ysgol, y coleg ac mewn cyflogaeth. Mae'r cymwysterau yn arbennig o addas ar gyfer pobl ifanc nad yw eu medrau a'u dulliau dysgu yn cael eu cydnabod trwy achredu TGAU. Maent yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi datblygiad medrau yn hytrach na gwybodaeth bwnc.

Un o'r prif gymwysterau a achredir gan ASDAN yw'r Dystysgrif Effeithiolrwydd Personol (TEP) sy'n gweithredu fel mynegiant cymhwyster ar gyfer cymwysterau ar lefelau 1-3. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer datblygu, asesu ac achredu medrau personol a chymdeithasol a'r medrau allweddol ehangach ar y lefel briodol. Mae ASDAN hefyd yn cynnig cymwysterau cymeradwy mewn pynciau fel cynllunio gyrfa a gwirfoddoli cymunedol. Yn ogystal, mae ASDAN hefyd yn cynnig cymwysterau nad ydynt yn ffurfiol. Mae rhai o'r rhain wedi'u cynllunio i'w defnyddio gan ddysgwyr cyn-16 ac ôl-16 sydd ag anawsterau dysgu lluosog a dwys. Ymhlith y rhain, mae dyfarniadau fel y rheiny mewn:

- Her Pontio;
- Tuag at Annibyniaeth; a
- Workright.

Y Rhwydwaith Coleg Agored Cenedlaethol (RhCAC)

Corff dyfarnu yw'r Rhwydwaith Coleg Agored Cenedlaethol sy'n trwyddedu rhwydweithiau lleol i gynnig amrywiaeth eang iawn o raglenni dysgu ar gyfer pobl ifanc ac oedolion. Mae RhCAC yn gorff dyfarnu cenedlaethol a gymeradwyir gan yr awdurdodau rheoleiddio. Mae'r 11 Rhwydwaith Coleg Agored yn darparu systemau achredu lleol ac maent yn cynorthwyo darparwyr wrth gynllunio dyfarniadau sy'n bodloni anghenion lleol penodol. Mae pob un o'r cymwysterau RhCA yn seiliedig ar gredydau. Mae llawer o gymwysterau'r RhCAC nawr yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.

Cyngor Dyfarniadau mewn Gofal ac Addysg Plant (CACHE)

Ffurfiwyd CACHE ym 1994 pan unodd yr NNEB (Bwrdd Arholi Meithrin Cenedlaethol) â'r Cyngor Dyfarniadau Blynyddoedd Cynnar (CEYA) i ffurfio'r Cyngor Dyfarniadau mewn Gofal ac Addysg Plant (CACHE).

Eu prif gymhwyster yw Diploma CACHE mewn Gofal ac Addysg Plant, (a oedd yn cael ei adnabod o'r blaen fel NNEB). Mae hwn yn gymhwyster lefel 3 amser llawn sy'n caniatáu dilyniant i addysg uwch yn ogystal ag addysg feithrin. Mae CACHE hefyd yn darparu ystod eang o gymwysterau fel CGCau yn y blynyddoedd cynnar a gofal, gwaith chwarae a chynorthwywyr addysgu yn ogystal â chymwysterau eraill ym meysydd gofal ac addysg plant o lefel mynediad i lefel 4.

Dyfarniadau Pacific Institute

Mae Dyfarniadau Pacific Institute wedi'u cynllunio i gymell pobl ifanc sydd heb elwa rhyw lawer ar eu profiadau addysg a hyfforddiant blaenorol. Enw'r prif ddyfarniad nawr yw Ennill Cyfleoedd a Medrau Byw (GOALS) a nod y rhaglen yw datblygu medrau meddwl er mwyn cefnogi datblygiad hunan-barch a hunangred fel y gall dysgwyr gyflawni eu potensial llawn. Defnyddir y dyfarniadau hyn yn bennaf gan ddarparwyr dysgu yn y gwaith.

Cynllun Gwobr Dug Caeredin

Sefydlwyd Cynllun Gwobr Dug Caeredin ym 1956 i roi cyfle i bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed ymgymryd â rhaglen datblygiad personol sy'n ddifyr, yn heriol ac yn foddhaus. Fe'i darperir gan ysgolion, colegau, clybiau ieuenctid, sefydliadau gwirfoddol, unedau cyfeirio disgyblion, sefydliadau troseddwyr ifanc a busnesau. Fe'i cynigir ar dair lefel (efydd, arian ac aur) ac mae'n ofynnol dangos cryn ymroddiad a chyfrifoldeb ar bob un o'r tair lefel. Mae pedair adran ar bob lefel gyda phum adran ar lefel aur, sef:

- Gwasanaeth – helpu pobl yn y gymuned;
- Medrau – ymdrin â hobïau, medrau a diddordebau;
- Hamdden gorfforol - chwaraeon, dawns a ffitrwydd;
- Teithiau – hyfforddi ar gyfer a chynllunio taith gerdded, taith ar gefn ceffyl, neu ar gwch a beic; a
- Phrosiect preswyl (aur yn unig) – gweithgarwch pwrpasol gyda phobl ifanc nad yw'r cyfranogwr yn gwybod amdano'n flaenorol.

Rhaglen Gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth y Tywysog

Elusen genedlaethol yw Ymddiriedolaeth y Tywysog sy'n cynnig ystod o raglenni ar gyfer pobl ifanc. Ei nod yw helpu'r cymunedau a'r grwpiau mwyaf difreintiedig, yn enwedig pobl ifanc, trwy gael gwared ar rwystrau at waith.

Mae pob un o raglenni Ymddiriedolaeth y Tywysog yn canolbwyntio ar bobl ifanc sydd:

- yn dangyflawnwyr addysgol;
- yn droseddwyr ac yn gyn-droseddwyr;
- yn bobl ddi-waith; ac
- mewn gofal neu'n gadael gofal.

Cwrs 12 wythnos yw'r Rhaglen Gwirfoddolwyr sy'n cynnig ystod o weithgareddau strwythuredig sydd wedi'u cynllunio i wella cymhelliant a hyder dysgwyr ac i roi medrau i'w helpu i fynd ymlaen i hyfforddiant pellach, addysg neu waith. Caiff cyfranogwyr y cyfleoedd i brofi adeiladu tîm, lleoliadau gwaith a phrosiectau cymunedol. Gallant gyflawni medrau allweddol, dyfarniadau ASDAN a chymwysterau ychwanegol fel y rheiny mewn Cymorth Cyntaf.

Maent hefyd yn cynnig dyfarniad xl a achredir gan ASDAN. Mae yna glybiau xl mewn dros 60 o ysgolion yng Nghymru. Gellir cael y dyfarniad ar 3 lefel: efydd, arian

ac aur. Mae clybiau xl wedi'u hanelu at bobl ifanc sy'n wynebu anawsterau yn yr ysgol yn ystod blynyddoedd 10 ac 11. Mae gan raglen xl chwe phrif faes cwricwlwm:

- medrau personol, rhyngbersonol a thîm;
- dinasyddiaeth ac ymwybyddiaeth gymunedol;
- prosiect yn y gymuned;
- gweithgaredd preswyl;
- entrepreneuriaeth a menter; a
- pharatoi ar gyfer byd gwaith a hyfforddiant.